**PWYLLGOR LLYWODRAETHU AC ARCHWILIO**

**Chwefror 6ed 2025**

**Presenoldeb:** **Cadeirydd:** Carys Edwards
**Is-gadeirydd**: Rhys Parry

**Cynghorwyr:** Menna Baines, Elfed Wyn ap Elwyn, Elwyn Jones, Dafydd Meurig, Edgar Wyn Owen, Arwyn Herald Roberts, Huw Rowlands, Ioan Thomas a Rob Triggs.

**Aelodau Lleyg**: Sharon Warnes ac Eifion Jones

**Swyddogion:** Dewi Morgan (Pennaeth Cyllid), Ffion Madog Evans (Pennaeth Cyllid Cynorthwyol - Cyfrifeg a Phensiynau), Delyth Jones-Thomas (Rheolwr Buddsoddi), Caren Rees Jones (Cyfrifydd Grŵp - Cyfalaf a Rheolaeth), Heledd Thomas (Uwch Gyfrifydd - Adnoddau a Chorfforaethol), Gwyn Llŷn Parry (Cyfrifydd Grŵp - Cyfrifeg ac Ariannol), David Lloyd Williams (Cyfrifydd Grŵp), Nel Gwynn Povey (Cynllun Yfory - Hyfforddai Proffesiynol Cyllid), Bleddyn Rhys (Arweinydd Archwilio Mewnol), Eva Williams (Arweinydd Archwilio Mewnol), Geraint Owen (Cyfarwyddwr Corfforaethol), Eleri Jones (Uwch Swyddog Gweithredol) a Lowri Haf Evans (Swyddog Gwasanaethau Democratiaeth)

**Eraill a wahoddwyd:** Y Cynghorydd Huw Wyn Jones (Aelod Cabinet Cyllid)

Eitem 5: Cyng. Nia Jeffreys (Arweinydd Cyngor Gwynedd), Dafydd Gibbard (Prif Weithredwr), Ffion Mai Jones (Arweinydd Tîm Cefnogaeth Gweithredol) a Meinir Owen (Uwch Ymarferydd Prosiectau)

Eitem 10: Dafydd Gibbard (Prif Weithredwr), Aled Davies (Pennaeth Adran Oedolion, Iechyd a Llesiant) a'r Cynghorydd Beth Lawton (Cadeirydd Pwyllgor Craffu Gofal)

Eitem 11: Alan Hughes (Archwilio Cymru) a Dewi Wyn Jones (Rheolwr Gwasanaeth Cefnogi Busnes y Cyngor)

Eitem 12: Iwan Evans (Pennaeth Gwasanaethau Cyfreithiol) ac Erin Haf (Cyfreithiwr)

1. **YMDDIHEURIADAU**

   Derbyniwyd ymddiheuriadau gan y Cynghorwyr Meryl Roberts, Angela Russell a Richard Glyn Roberts

2. **DATGAN BUDDIANT PERSONOL**

   Dim i'w nodi

3. **MATERION BRYS**

   Dim i'w nodi

4. **GWEITHREDU PENDERFYNIADAU'R PWYLLGOR**

Cyflwynwyd adroddiad oedd yn rhoi amlinelliad o sut mae adrannau'r Cyngor wedi ymateb i benderfyniadau'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio fel bod modd i'r Aelodau gael sicrwydd bod eu penderfyniadau yn cael sylw. Nodwyd bod yr adroddiad yn rhoi cyfle i'r Aelodau ystyried y penderfyniad a wnaed gyda bwriad o ddileu'r eitem / penderfyniad pan fydd y weithred wedi cwblhau.

Materion yn codi o'r drafodaeth ddilynol ac ymatebion i gais am ddiweddariadau:

Adroddiad Perfformiad Blynyddol ac Hunanasesiad (drafft) Cyngor Gwynedd - *angen cynnwys y Pwyllgor yn gynharach yn y broses - awgrym i gynnal gweithdy gyda'r Aelodau fel eu bod yn cael mewnbwn a gwell cyflë i gynnig argymhellion* - nodwyd bod gwaith yn mynd rhagddo i geisio adnabod yr ymarfer gorau - angen ystyried rôl y Pwyllgor yma ac os priodol fyddai cynnig mewnbwn a chraffu'r hunanasesiad yn diweddarach? Ategwyd bod posib cyflwyno fersiwn drafft o'r hunanasesiad mewn gweithdy gyda'r Aelodau

Hyfforddiant Ffordd Gwynedd - *dymuniad y Pwyllgor i dderbyn hyfforddiant Ffordd Gwynedd* - nodwyd bod hyfforddiant Ffordd Gwynedd wedi cael ei adolygu a'i addasu yn ddiweddar a bod dyddiad i'r Cabinet dderbyn hyfforddiant wedi ei glustnodi gan yr Adran Dysgu A Datblygu. Yn dilyn hyn, bydd sesiwn cyffelyb yn cael ei drefnu ar gyfer y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio i dderbyn hyfforddiant.

Mewn ymateb i bryder bod dwy sedd wag gan yr Aelodau Lleyg ar y Pwyllgor, nodwyd bod hysbyseb parhaus ar y wefan ond dim ymateb wedi ei dderbyn. Gwnaed sylw pellach, petai'r broblem yn parhau, dylid ystyried adolygu nifer Aelodau ar y Pwyllgor - 18 aelod i weld yn uchel o gymharu â Siroedd eraill.

**PENDERFYNWYD**

- **Derbyn cynnwys yr adroddiad**

Nodyn:
Dwy sedd wag gan Aelodau Lleyg ar y Pwyllgor. Pennaeth Cyllid, Rheolwr Gwasanaeth Democratiaeth ac Iaith a Rheolwr Priodoldeb ac Etholiadau i drafod a cheisio ysgogi diddordeb.

**5. ARBEDION A THORIADAU 2025/26**

Cyflwynwyd adroddiad gan Arweinydd y Cyngor, yn gofyn i'r Pwyllgor ystyried priodoldeb y broses o adnabod yr arbedion, a chyflwyno sylwadau i'r Cabinet eu hystyried cyn dod i benderfyniad yn eu cyfarfod 11-02-25. Adroddwyd nad rôl y Pwyllgor oedd mynegi barn ar beth ddylai maint yr arbedion fod neu rinweddau'r cynigion unigol sy'n cael ei hargymell fel arbedion, ond yn hytrach sicrhau fod y Cabinet yn glir o'r ffeithiau sydd yn cael eu cyflwyno iddynt, fel bod y penderfyniad sydd yn cael ei gymryd yn seiliedig ar wybodaeth gadarn.

Wrth gyflwyno cefndir i'r gwaith, nodwyd bod y Cyngor wedi bod yn cyflawni arbedion yn ddi-ffael ers blynyddoedd bellach a'r her o gyflawni'r arbedion hynny heb niweidio gwasanaethau trigolion y Sir yn anoddach. Eglurwyd bod y Cyngor bellach yn ymwybodol o lefel Grant Cynnal Refeniw (GCR) gan Lywodraeth Cymru ar gyfer 2025/26 (cynnydd o 3.2%), ac y bydd yn sylweddol is na hyn fydd ei angen i gynnal lefel gwasanaethau presennol. Nododd bod gwaith manwl wedi ei wneud gyda holl Adrannau'r Cyngor i adnabod cynlluniau arbedon a thoriadau.

Ategodd y Prif Weithredwr bod y Cyngor hefyd yn wynebu sefyllfa lle mae adrannau yn gorwario, a hynny yn bennaf oherwydd cynnydd parhaus yn y galw am wasanaethau; yn amhosib erbyn hyn i rai gwasanaethau megis gofal plant, gofal oedolion, gwastraff a

phriffyrdd weithredu o fewn eu cyllideb bresennol. Bydd hyn yn arwain at orwariant eleni o oddeutu £8m a rhan helaeth o'r bwlch hwn yn deillio o ddiffyg cyllideb i gwrdd â galw uwch am wasanaethau ac yn y rhan fwyaf o achosion nid yw'n opsiwn peidio darparu'r gwasanaethau hynny. O ganlyniad bydd angen defnyddio arian wrth gefn ar gyfer ymdopi â'r sefyllfa.

Cyfeiriwyd at y cynnydd sylweddol mewn costau staffio yn sgil newid polisi San Steffan i gynyddu cyfraniad Yswiriant Gwladol y cyflogwr. Fel cyflogwr i 6,000 o staff, bydd hyn yn ychwanegu hyd at £4.5M at gostau staffio. Er mai'r Cyngor fydd yn cyfarch y gost bydd Llywodraeth Cymru, (o ganlyniad i ddarpariaeth ôl-ddilynol cyhoeddiad Llywodraeth San Steffan i fod yn cyfarch costau ychwanegol i gyfraniadau cyflogwr Yswiriant Gwladol y sector gyhoeddus yn Lloegr), yn cyfrannu oddeutu £3.5m efallai.

O ganlyniad i ddarparu cyllideb uwch ar gyfer yr Adrannau sydd methu ymdopi â'u cyllideb bresennol a chyfanswm Grant Cynnal Refeniw isel gan y Llywodraeth, bydd bwlch ariannol 2025/26 oddeutu £8.77m.

I ganfod arbedion, cyflwynwyd 39 o gynigion gan Adrannau'r Cyngor (gwerth £1.89). Cynhaliwyd paneli toriadau gyda phob Adran lle heriwyd y wybodaeth a gyflwynwyd yng nghyd-destun staff, swyddogaeth, gwariant ac incwm. Amlygwyd yn y cyfarfodydd hyn mai ychydig iawn oedd modd peidio eu gweithredu yn eu cyfanrwydd. Aseswyd pob cynnig gan y Prif Weithredwr neu gan un o'r Cyfarwyddwyr Corfforaethol ac fe'u gosodwyd mewn pedwar categori i gynorthwyo'r Aelodau flaenoriaethu cynlluniau arbedion 2025/26 gydag ymwybyddiaeth o beth fyddai'r lefel risg o weithredu unrhyw gynnig unigol. Cynhaliwyd Ymgynghoriad Cyhoeddus gan esbonio sefyllfa ariannol y Cyngor a'r tebygolrwydd y bydd gorfodaeth i weithredu toriadau fel rhan o'r ymdrech i gyfarch y bwlch ariannol yn 25/26 a chafwyd 627 o ymatebion.

Yn ystod gweithdai a sesiynau un i un a gynhaliwyd gyda'r Aelodau, cyflwynwyd yr holl gynigion gan ofyn i'r Aelodau nodi os oeddent yn fodlon gweithredu pob un o'r 39 o gynigion, neu, os nad oeddent yn fodlon eu gweithredu, derbyn bod angen cynyddu'r dreth cyngor cyfwerth â gwerth ariannol y toriad oedd dan sylw. Adroddwyd mai'r consensws bras ymysg yr aelodau o ran pa gynlluniau y dylid eu blaenoriaethu, oedd nad oedd awydd gweithredu llawer o doriadau. Nodwyd bod 21 allan o'r 39 o opsiynau yn rhai lle nad oedd dros hanner yr aelodau yn gefnogol i'w gweithredu; dim ond ar gyfer 9 opsiwn cafwyd consensws ymysg dros 80% o'r aelodau eu bod yn fodlon eu gweithredu - gwerth £519k.

Ategwyd bod asesiad cyfreithiol, cydraddoldeb ac ardrawiad iaith wedi eu cwblhau yn ystod y broses ynghyd ag ymateb i ofynion Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015.

Diolchwyd am yr adroddiad

Mewn ymateb i gwestiwn ynglŷn â gweledigaeth i'r dyfodol, nodwyd er bod rhai o'r cynlluniau yn doriadau effaith fechan, byddai tynnu adnodd yn gyfan gwbl yn cael mwy o effaith ar drigolion y Sir. Ategwyd na fydd pethau cystal ar gyfer 2026/27 gyda ffactorau gwleidyddol, megis etholiadau, yn debygol o gael effaith pellach. Er hynny, nodwyd bod y Cyngor yn paratoi ar gyfer gwneud penderfyniadau anodd, ac yn yr un modd yn gobeithio am setliad gwell gan Lywodraeth Cymru.

Mewn ymateb i gwestiwn ynglŷn â thrafod gyda phob Adran, ond nid gyda gwasanaethau ar y cyd, ac os oedd rhesymoli gwasanaethau yn faes i'w ystyried i'r dyfodol, nodwyd bod rhesymoli gwasanaethau wedi cael ei ystyried yn y gorffennol fel arbedion effeithlonrwydd, ond eleni, y trafodaethau wedi eu cynnal fesul Adran a'r paneli yn adnabod cymariaethau ac ystyried cyfleoedd uno.

Mewn ymateb i gwestiwn ynglŷn ag ystyriaeth risg i ysgolion yn sgil diddymu GwE ac y byddai'r toriad yn cael effaith ar ddisgyblion y Sir, nodwyd bod y risg wedi ei ystyried. Ategwyd mai'r drefn genedlaethol oedd yn newid gyda'r Gwasanaeth yn cael ei fewnoli i'r Cynghorau unigol. Penderfyniad Gwynedd yw gweithredu toriad bychan o ran canran gyda bwriad o adolygu'r drefn wrth i'r Gwasanaeth sefydlogi

Yn ystod y drafodaeth ddilynol nodwyd y sylwadau canlynol gan aelodau:

- Croesau gwahoddiad i'r gweithdai rhannu gwybodaeth – hyn wedi bod yn fuddiol
- Bwlch ariannol wedi gostwng ond yr arian wrth gefn yn lleihau
- Croesawu bod ymgynghoriad cyhoeddus wedi ei gynnal - pam na ofynnwyd i'r cyhoedd am eu barn ynglŷn â graddfa Treth Cyngor?
- A fu ystyriaeth lawn i'r cynigion hynny a wrthodwyd? Oes manylion pellach? A yw'r Cabinet wedi cael arweiniad clir ar y cynigion hynny?
- Er arbediad o £519k, dim ond £100k sydd yn weithredol 2025/26
- Croesawu cynllun ariannol tymor canolig – hyn yn rhoi amser i adrannau addasu

Mewn ymateb i sylw ynglŷn â'r ymgynghoriad cyhoeddus, nodwyd bod sawl ffurf wedi bod i'r ymgynghoriad cyhoeddus dros y blynyddoedd ac yn sicr y drefn i'w hadolygu eto i'r dyfodol. Nodwyd mai anodd fyddai i'r cyhoedd wneud penderfyniad ynglŷn â'r Dreth Cyngor - petai'r dreth yn gostwng byddai hyn yn arwain at fwy o doriadau.

Mewn ymateb i gwestiwn os oedd y panel toriadau yn hyderus bod pob dim wedi ei hidlo yn drwyadl o ystyried bod cyfnod o ryw 5 - 6 mis heb fewnbwn gan Aelodau, nododd Arweinydd y Cyngor, er yn cydnabod bod y broses wedi bod yn un hir, ei bod yn hapus gyda'r wybodaeth a gyflwynwyd a bod yr Aelodau wedi cael cyfle i roi mewnbwn. Ategodd y Prif Weithredwr bod cadarnhad o'r setliad yn arafu'r broses ac er y gallu i ddamcaniaethu a chael amrediad o opsiynau, bod materion ychwanegol yn codi o'r setliad.

Ategodd yr Arweinydd mai digalon yw gorfod gweithredu toriadau yn flynyddol er y deheuad o gynnal gwasanaethau o safon a chynnig Treth Cyngor isel. Y weledigaeth yw gweithio yn drawsadrannol - yn un Cyngor, yn un Tîm.

**PENDERFYNWYD:**

- **Bod camau rhesymol, o dan amgylchiadau heriol, wedi eu cymryd i lunio'r Cynllun Arbedion**
- **Bod yr arbedion a gynigwyd yn rhesymol a chyraeddadwy**
- **Bod y risgiau a'r goblygiadau'r penderfyniad yn glir**
- **Bod yr adroddiad yn ddigonol i alluogi'r Cabinet i wneud penderfyniad ar y Cynllun Arbedion**
- **Cyflwyno sylwadau o'r drafodaeth ar yr adroddiad i'r Cabinet eu hystyried wrth drafod a chymeradwyo'r Cynllun Arbedion 2025/26 yn eu cyfarfod 11/02/25**
- **Croesawu gwahoddiad i'r gweithdai rhannu gwybodaeth**

Nodyn**:**

- I ystyried adolygu'r ymgynghoriad cyhoeddus i'r dyfodol i geisio barn trigolion am lefel treth
- Annog mwy o ymdrech i resymoli gwasanethau

**6. CYLLIDEB 2025/26**

Cyflwynwyd adroddiad gan yr Aelod Cabinet Cyllid yn nodi fod y Cyngor wedi derbyn cynnydd grant Llywodraeth o 3.1% gyfer 2025/26, sy'n cyfateb i gynnydd gwerth £7.5m mewn ariannu allanol. Adroddwyd y byddai nifer o ffactorau yn creu pwysau gwariant ychwanegol ar wasanaethau'r Cyngor yn 2025/2g gyda'r angen i gynyddu gwariant o £24.,2m i gwrdd â phwysau ar gyllidebau'r gwasanaethau. Yn ogystal â chyfarch y galw ar wasanaethau yn ogystal â chwyddiant uchel bydd rhaid ystyried cyfuniad o gynnydd Treth Cyngor a rhaglen newydd o arbedion a thoriadau. Gydag argymhelliad o gynnydd o 8.66% yn y Dreth Cyngor bydd angen mwy o arbedion a thoriadau i osod cyllideb gytbwys gyda rhagolygon yn awgrymu bydd pwysau pellach wrth anelu i osod cyllideb gytbwys ar gyfer 2026/27.

Amlygwyd mai rôl y Pwyllgor oedd craffu'r wybodaeth gan sicrhau bod y Cabinet a'r Cyngor yn glir o'r ffeithiau sydd yn cael eu cyflwyno iddynt fel bod y penderfyniad yn seiliedig ar wybodaeth gadarn.

Gwahoddwyd y Pennaeth Cyllid yn ei rôl fel swyddog cyllid statudol i gyflwyno'r wybodaeth, i fynegi ei farn a manylu ar gadernid yr amcangyfrifon oedd yn sail i'r gyllideb ynghyd a'r risgiau posib a'r camau lliniaru.

Amlygodd y bydd y Cabinet (cyfarfod 11/02/25) yn argymell i'r Cyngor Llawn (06/03/25) i sefydlu cyllideb o £355,243,800 ar gyfer 2025/26 i'w ariannu drwy Grant Llywodraeth o £246,818,190 a £108,425,610 o incwm o'r Dreth Cyngor (sydd yn gynnydd o 8.66% ar dreth anheddau unigol) a sefydlu rhaglen gyfalaf o £53,736,190 yn 2025/26.

Eglurwyd bod Gofynion Gwario Ychwanegol wedi eu hystyried yn y gyllideb ac amlygwyd y meysydd hynny;

- Chwyddiant Cyflogau o £8.6m - y gyllideb yn neilltuo cynnydd cytundeb tâl 2025/26 o 3.5% ar gyfer yr holl weithlu ac athrawon
- Addasiad i'r trothwy a chyfradd yswiriant gwladol a delir gan y cyflogwr.
- Cyllideb o £4.6m wedi ei osod ar y sail y bydd y gost yn cael ei ariannu'n rhannol gan y Llywodraeth, sef gwerth £3.5 miliwn
- Cynnydd mewn Ardollau i gyrff perthnasol - £506K
- Demograffi - lleihad mewn nifer disgyblion yn yr ysgolion - £643k
- Pwysau ar Wasanaethau - argymell cymeradwyo bidiau gwerth £7.7m am adnoddau parhaol ychwanegol a gyflwynwyd gan adrannau'r Cyngor i gwrdd â phwysau anorfod ar eu gwasanaethau. Nodwyd bod y bidiau a gyflwynwyd wedi eu herio'n drylwyr gan y Tîm Arweinyddiaeth cyn eu hargymell i'w cymeradwyo gan y Cabinet.
- Ystyriaethau pellach - £2.2m ( addasiadau i wahanol gyllidebau ar draws y Cyngor sy'n cynnwys effaith lleihad mewn derbyniadau llog o £2.3m mewn dychweliadau wrth fuddsoddi balansau a llif arian y Cyngor

Cyfeiriwyd at Rhagolygon Gorwariant 2024/25 yr Adran Oedolion, Iechyd a Llesiant a'r Adran Plant a Theuluoedd gan nodi'r bwriad o gyllido'r gorwariant drwy gronfeydd wrth gefn (gwerth £8,294m)

Yng nghyd-destun y cynlluniau arbedion, cyfeiriwyd at gynlluniau arbedion a thoriadau newydd i leihau'r bwlch ariannu o £519k fydd yn cael eu cyflwyno i'r Cabinet 11-02-25 (er mai £100k gellid ei dynnu o gyllideb 2025/26.

Adroddwyd y byddai angen cyfarch gweddill y bwlch drwy'r Dreth Cyngor ac o ganlyniad bydd y Cabinet yn argymell i'r Cyngor Llawn i godi'r dreth 8.66% er mwyn diwallu'r pwysau ar wasanaethau wrth osod cyllideb gytbwys.

Cyfeiriwyd at y gwaith gofynnol a wnaed i adrodd ar gadernid yr amcangyfrifon sydd yn sail i'r gyllideb, ac wedi ystyried yr holl risgiau a'r camau lliniaru roedd y Pennaeth Cyllid o'r farn fod y cyllidebau ar gyfer 2025/26 yn un gadarn, digonol a chyraeddadwy.

Diolchwyd am y cyflwyniad.

Sylwadau yn codi o'r drafodaeth ddilynol

- Bod lefel y dreth yn uchel - yn anodd a'r drethdalwyr Gwynedd o ystyried bod sefyllfa'r blynyddoedd nesaf i weld yn gwaethygu. Angen osgoi codi treth eto
- Croesawu bod y gyllideb yn gytbwys, ond angen cadw llygad ar y sefyllfa o ystyried bod prisiau tai yn uchel yng Ngwynedd a chyflogau yn isel
- Yn diolch am y gwaith trylwyr o baratoi'r gyllideb
- Bod defnydd o £8.8m o gronfa wrth gefn i weld yn sylweddol - yn amlygu pryder bod y gorwariant yn parhau. Angen i'r Adrannau geisio gweithredu o fewn eu cyllidebau
- Bod rhaid sicrhau bod arian wrth gefn ar gyfer argyfwng
- Os daw mwy o arian gan Lywodraeth Cymru, a fydd bwriad ei ddefnyddio i gryfhau'r gronfa wrth gefn yn hytrach na defnydd bidiau?

Mewn ymateb i gwestiwn ynglŷn â thalu chwyddiant ar gyflogau, nododd y Pennaeth Cyllid bod cynnydd mewn cyflogau yn cael eu gosod yn genedlaethol ac anodd yw rhagweld y cynnydd hwnnw. Ategwyd mai swm ac nid canran sydd wedi ei weithredu yn y gorffennol, ac er mai anodd yw gosod canran, nid yw'r Cyngor mewn sefyllfa i wrthod gweithredu'r cynnydd.

Mewn ymateb i'r sylwadau, nododd Arweinydd y Cyngor bod Gwynedd gyda chefnogaeth siroedd gwledig eraill megis Sir Fynwy a Phowys yn pwyso ar CLlLC i osod isafswm i'r setliad. Cydnabuwyd hefyd bod pwysau cynyddol ariannol ar drigolion Gwynedd a bod y dewis rhwng cynnal gwasanaethau a chynnig lefel rhesymol o drethiant yn un anodd.

**PENDERFYNWYD:**

- **Derbyn yr adroddiad gan nodi'r cynnwys**
- **Derbyn priodoldeb ariannol y cynigion a'r risgiau perthnasol**
- **Cyflwyno sylwadau o'r drafodaeth i'r Cabinet eu hystyried wrth drafod a chymeradwyo Cyllideb 2025/26 yn eu cyfarfod 11/02/25**
- **Diolch i'r Adran Cyllid am y gwaith trylwyr o baratoi'r Gyllideb**

Nodyn:
Sefyllfa gorwariant yn bryderus - angen sicrhau llai o ddefnydd o'r gronfa wrth gefn

## 7. STRATEGAETH GYFALAF 2025/26 (YN CYNNWYS STRATEGAETHAU BUDDSODDI A BENTHYG)

Cyflwynwyd adroddiad gan y Rheolwr Buddsoddi yn rhoi trosolwg ar weithgareddau Cyfalaf a rheolaeth trysorlys y Cyngor gan ategu bod yr Aelodau wedi derbyn cyflwyniad diweddar gan yr ymgynghorwyr ariannol, Arlingclose yn egluro'r manylder tu ôl i'r strategaeth mewn modd dealladwy a chynhwysfawr.

Cyfeiriwyd at y gweithgareddau cyfalaf a thynnwyd sylw bod y Cyngor yn bwriadu gwneud gwariant cyfalaf o £53.7miliwn yn 25/26 gyda'r prif gynlluniau wedi ei rhestru yn yr adroddiad ynghyd a'r ffynonellau ariannu. Nodwyd mai'r adnoddau allanol yn bennaf yw Llywodraeth Cymru ac adnoddau Cyngor Gwynedd yw'r cronfeydd. Daw gweddill o'r arian trwy fenthyciad fydd yn cael ei dalu nôl dros nifer o flynyddoedd, fel arfer o adnoddau refeniw neu o incwm gwerthiant asedau sydd yn gyson gyda gweithred y

blynyddoedd blaenorol. Golygai hyn y bydd y dangosydd - Gofyn Cyllido Cyfalaf y Cyngor, yn £191.7 miliwn erbyn diwedd blwyddyn ariannol 25/26, sef y lefel y dylai benthyg tymor hir y Cyngor aros odditano.

Yng nghyd-destun y Strategaeth Fenthyca, amlygwyd yn ddiweddar nad oes gofyn benthyca tymor hir wedi bod, dim ond tymor byr ar gost isel dros ddiwedd y flwyddyn ariannol; bydd hyn am barhau gyda dim benthyca tymor hir yn cael ei ragweld ar gyfer gweithgareddau Cyngor Gwynedd, a bod dyled y Cyngor yn aros o dan y Gofyn Cyllido Cyfalaf.

Cyfeiriwyd at y Meincnod Ymrwymiadau sydd bellach yn cael eu hadrodd i'r Pwyllgor yn chwarterol erbyn hyn. Bydd y Cyngor yn disgwyl i'w fenthyciadau fod yn uwch na'i feincnod ymrwymiad hyd ar 2025 oherwydd bod gan y Cyngor lefel uchel o reserfau.

Yng nghyd-destun Strategaeth Buddsoddi, nodwyd mai polisi'r Cyngor yw blaenoriaethu diogelwch a hylifedd dros gynnyrch i sicrhau bod arian ar gael i dalu am wasanaethau'r Cyngor. Nodwyd bod symiau yn cael eu cadw drwy'r adeg i sicrhau hylifedd.

Cyfeiriwyd at y rheolaeth risg a llywodraethu ynghyd â manylder ymrwymiadau tymor hir y Cyngor e.e., unioni diffyg y Gronfa Bensiwn, ac effaith o'r costau ariannu i'r llif arian lle gwelir bod y ganran yn isel ac yn eithaf cyson gyda blynyddoedd blaenorol. Cadarnhawyd hefyd bod y wybodaeth a sgiliau perthnasol gan y swyddogion ac mai Arlingclose sydd yn darparu gwasanaeth ymgynghorwyr ariannol i'r Cyngor.

**Diolchwyd am yr adroddiad**

**PENDERFYNWYD:**

- **Derbyn yr adroddiad gan nodi'r wybodaeth a'r risgiau perthnasol**
- **Cefnogi bwriad yr Aelod Cabinet Cyllid i gyflwyno'r Strategaeth i'r Cyngor Llawn am gymeradwyaeth ar y 6ed o Fawrth 2025**

## 8. CYNNYRCH ARCHWILIO MEWNOL

Cyflwynwyd, er gwybodaeth, adroddiad gan Arweinydd Archwilio Mewnol yn diweddaru'r Pwyllgor ar waith Archwilio Mewnol am y cyfnod o 1 Hydref 2024 hyd 27 Ionawr 2025. Amlygwyd bod 9 o archwiliadau Cynllun Gweithredu 2024/25 wedi eu cwblhau gyda phump ohonynt yn dangos lefel sicrwydd digonol a phedwar yn dangos lefel sicrwydd cyfyngedig. Ategwyd bod 17 cynllun ar y gweill.

Diolchwyd am yr adroddiad

Yn ystod y drafodaeth ddilynol nodwyd y sylwadau canlynol gan Aelodau:

- RHEOLI PROSIECT TRAFNIDIAETH YSGOLION
- - angen sicrhau bod gwiriadau DBS yn cael eu cynnal.
- POLISI CANU'R GLOCH
  - Pryder bod gostyngiad yn y nifer staff sydd yn ymwybodol o Polisi Canu'r Gloch Angen sicrhau bod y polisi yn gryf a chadarn
  - Angen adfer hyder gweithwyr yn y polisi ac ystyried materion sydd o bryder i staff

  Mewn ymateb nodwyd bod awydd i wella'r polisi a bod Hyfforddiant Ffordd Gwynedd yn adlewyrchu hynny - diwylliant ac ymddiriedaeth staff yn hanfodol i drefn Ffordd Gwynedd o weithio. Canlyniadau Arolwg Llais Staff i'w cyhoeddi yn fuan gyda negeseuon pwysig yn sicr o ddeillio o'r arolwg
- MEYSYDD PARCIO

  - Dim digon o staff gorfodaeth. Sut ellir cefnogi'r sefyllfa?
- GRANT ATAL DIGARTREFEDD 2022/23
  - Pwysig bod hawliadau grant yn cael eu cyflwyno yn amserol

  Mewn ymateb i gwestiwn os oedd y grant yn un sylweddol, nodwyd bod dwy dystysgrif i'w cwblhau a bod hyn o ganlyniad i newidiadau staffio. Nodwyd bod trafodaethau yn cael eu cynnal gan fod risg yma o beidio cadw at delerau'r grant
- CYNNAL Y GOFRESTR AROS TAI
  - Adroddiad cadarnhaol
- CYFFREDINOL
  - Bod diffyg adnoddau yn cael effaith ar wasanaethau
  - Bod angen parhau i gadw llygad ar y cynlluniau
  - Yn derbyn yr argymhellion, ond angen diweddariad cynnydd / gwelliannau
  - Bod angen dilyniant i'r wybodaeth sydd yn cael ei gyflwyno, yn enwedig i'r cynlluniau hynny sydd gyda lefel sicrwydd cyfyngedig
  - Angen gosod amserlen ar gyfer y cynlluniau risg uchel
  - Bod rhai camau gweithredu yn wan, angen i Archwilio Mewnol ymateb os nad yw'r camau yn ddigonol i osgoi risgiau pellach

  Mewn ymateb, nodwyd mai perchnogaeth Adrannau yw'r camau gweithredu ac mai gwaith Archwilio Mewnol yw amlygu'r risgiau a thystiolaethu bod trefniadau mewn lle i dderbyn sicrwydd.

Diolchwyd i Bleddyn Rhys ac Eva Williams am arwain y gwasanaeth dros gyfnod salwch y Rheolwr Archwilio

**PENDERFYNWYD:**

- **Derbyn yr adroddiad a chefnogi'r gweithrediadau sydd eisoes wedi eu cytuno gyda'r gwasanaethau perthnasol**
- **Bod angen cynnwys amserlen i'r camau gweithredu**
- **Bod angen adroddiad yn nodi dilyniant ar yr hyn sydd yn cael ei gyflawni**

## 9. CYNLLUN ARCHWILIO MEWNOL

Cyflwynwyd, er gwybodaeth, adroddiad gan y Rheolwr Archwilio yn diweddaru'r Pwyllgor ar y sefyllfa gyfredol o ran cwblhau Cynllun Archwilio Mewnol 2024/25 Cyfeiriwyd at statws y gwaith ynghyd a'r amser a dreuliwyd ar bob archwiliad. Amlygwyd bod 54%, allan o'r 37 archwiliad unigol sydd yn y cynllun, bod 20 wedi ei ryddhau yn derfynol neu wedi cau.

Diolchwyd am yr adroddiad

Mewn ymateb i gwestiwn ynglŷn â'r 13 ymchwiliad sydd wedi eu canslo ar gyfer 2024/25 ac os byddant yn cael eu hail broffilio ar gyfer 2025/26, nodwyd y bydd adolygiad o archwiliadau 2025/26 yn cael ei weithredu ac os oes risg uchel i'r archwiliadau a ganslwyd yna bydd y meysydd hynny sydd a'r risg mwyaf yn cael eu blaenoriaethu.

**PENDERFYNWYD:**

- **Derbyn a nodi cynnwys yr adroddiad**

## 10. ADRODDIAD ARCHWILIAD ARBENNIG – GOFAL CARTREF

Yn dilyn, darganfyddiadau archwiliad arbennig gan Archwilio Mewnol a gomisiynwyd gan y Prif Weithredwr i ofal cartref Cyngor Gwynedd, cafwyd diweddariad gan Pennaeth Adran Oedolion, Iechyd a Llesiant ar y rhaglen waith manwl sydd wedi ei llunio i flaenoriaethu a chryfhau'r ddarpariaeth, ac i wella effeithiolrwydd ac effeithlonrwydd trefniadau'r Cyngor yn y maes gofal cartref. Nodwyd bod y rhaglen waith yn cynnwys 63 o Is-brosiectau o fewn ffrydiau gwaith y Grŵp Prosiect Gofal Cartref (sydd wedi ei sefydlu dan arweiniad y Pennaeth i gyfarch y gwaith a mynd i'r afael â'r materion sydd angen sylw i roi hyder fod y model o ddarparu gofal cartref yn gweithio yn effeithiol). Ategwyd bod tri prif ffrwd i'r rhaglen waith oedd yn cynnwys darpariaethau mewnol (15), systemau a phrosesau (22) a gwreiddio'r model newydd (26). Cyflwynwyd i'r Pwyllgor yr is- brosiectau hynny oedd yn ymwneud ag Archwiliad SAC yn unig sef rhestr aros, gwariant / cyllido a monitro contractau a rhoddwyd adroddiad cynnydd ar y prosiectau hynny.

Mewn ymateb i sylwadau'r Pwyllgor yn gofyn am sicrwydd bod y Pwyllgor Craffu Gofal wedi edrych ar elfennau'r maes gofal cartref, y model newydd yn gyffredinol a'i effaith ar drigolion, nodwyd bod adroddiad wedi ei gyflwyno i'r Pwyllgor Craffu yn Medi 2024 i gefnogi awydd aelodau'r Pwyllgor Craffu Gofal i bwyso a mesur effeithiolrwydd y ddarpariaeth gofal cartref ar draws y Sir yn enwedig o ran cynnal a gwella gwasanaethau i drigolion.

Mewn ymateb i'r archwiliad mewnol, nodwyd bod sicrwydd ac eglurder o fynd i'r afael â'r materion a godwyd gyda gwahoddiad agored i archwilio mewnol fynychu cyfarfodydd o'r Grŵp Prosiect.

Yng nghyd-destun yr oriau bloc, nodwyd bod yr oriau yn cael eu hadolygu yn rheolaidd ar y cyd gyda'r Adran Cyllid a bod y gofrestr risg bellach wedi ei symleiddio i adlewyrchu blaenoriaethau ac ymdrech. Ymddengys bod y rhestrau aros yn amlygu tuedd / patrwm o leihad sydd yn rhoi argraff bod y model newydd yn mynd i'r cyfeiriad cywir.

Adroddwyd bod Archwiliad Arolygaeth Gofal Cymru yn cadw golwg dros ansawdd a safonau'r Gwasanaeth, ac Archwilio Cymru yn cyhoeddi eu darganfyddiadau o drefniadau Gofal Cartref 06-02-25 - bydd argymhellion yr archwiliadau hyn hefyd yn amlygu materion i'w gwella fydd angen eu cydlynu gyda'r rhaglen waith.

Mynegodd Pennaeth Adran Oedolion, Iechyd a Llesiant bod y maes gofal cartref yn un cyfnewidiol a heriol gyda'r mater yn cael sylw a buddsoddiad sylweddol i wella. Ategwyd bod yr Adran yn cymryd y mater o ddifrif a blaenoriaethau i wella wedi eu gosod.

Cymerodd y Prif Weithredwr y cyfle i ategu bod yr ymdrech i geisio trefn wedi deillio o ymateb i bryder yn nhrefn monitro gwariant gofal cartref a comisiynwyd Archwilio Mewnol i edrych ar y sefyllfa. O ganlyniad, nododd bod rhaglen waith wedi ei llunio a newidiadau ar waith i geisio gwella'r ddarpariaeth, gan dderbyn bod rhai o'r trefniadau wedi bod yn wan. Bellach gydag argymhellion clir Archwilio Mewnol, y broblem wedi ei hadnabod a gwellhad i'r sefyllfa wedi ei gynnig - yr oriau bloc yn cael sylw arbennig a'r rhestrau aros yn lleihau. Ategodd bod diweddariad o'r sefyllfa i'w gyflwyno iddo ar ddiwedd 2024/25 ynghyd a thrafodaethau parhaus yng nghyfarfodydd perfformiad yr Adran

Diolchwyd am y diweddariad, y wybodaeth a'r ymateb llawn i'r sefyllfa

Yn ystod y drafodaeth ddilynol nodwyd y sylwadau canlynol gan aelodau:

- Angen cyllideb ddigonol ar gyfer y gwaith - y gorwariant yn bryder
- Bod gwendidau sylweddol yng ngweinyddiaeth yr Adran - angen sicrhau bod y mater yn cael ei oruchwylio. Oes sicrwydd bod y gwendidau wedi diflannu a /ynteu sicrwydd bod yr arian sydd yn cael ei dalu allan yn gywir?

- Bod data yn cael ei ddefnyddio yn briodol - derbyn bod diffygion gwybodaeth wedi bodoli, ond angen sicrwydd bod y model newydd yn sicrhau gwybodaeth gywir i reoli a monitro y sefyllfa yn well
- Bod angen sicrhau bod llwyddiant yn cael ei fesur
- Bod angen diweddariad ar y cynnydd a llwyddiant y rhaglen waith

**PENDERFYNWYD:**

- **Derbyn a nodi'r cynnydd i ganfyddiadau arolwg Archwilio Mewnol a'r drefniadau Gofal Cartref y Cyngor**
- **Croesawu'r Rhaglen Waith drylwyr sydd mewn lle i wella'r ddarpariaeth**
- **Bod angen diweddariad pellach ymhen 12 mis ar gynnydd a llwyddiant y rhaglen waith**

## 11. ARGYMHELLION A CHYNIGION GWELLA ADRODDIADAU ARCHWILIO ALLANOL

Atgoffwyd yr Aelodau bod yr eitem yn un i'w ystyried fel rôl llywodraethu ac nid fel rôl craffu gyda chais i'r Pwyllgor fod yn fodlon bod trefniadau priodol yn ei lle er mwyn sicrhau bod cynigion gwella sydd yn codi o archwiliadau archwilio allanol yn cael eu gwireddu.

Nodwyd bod y gwaith o ymateb i'r rhan fwyaf o gynigion gwella yn waith parhaus a bod y Grŵp Llywodraethu sydd yn cael ei gadeirio gan y Cyfarwyddwr Corfforaethol yn rhoi sylw i'r cynigion gwella ac i'r cynnydd o'r argymhellion. Bydd yr archwiliadau hynny sydd wedi eu cwblhau yn cael eu dileu ac nid yn derbyn sylw pellach gan y Pwyllgor.

Cyfeiriwyd at drefniadau ymateb gan nodi bod ffurflen ymatebol gan y sefydliad (sydd yn cynnwys camau gweithredu ac amserlen), yn cael eu cwblhau a bod hyn wedi symleiddio'r broses. O ganlyniad, ac o ystyried y nifer sylweddol o archwiliadau sydd yn cael eu cyflwyno i'r Pwyllgor, bod bwriad adrodd ar gynnydd adroddiadau archwilio allanol pob chwe mis i'r Pwyllgor. Yn ychwanegol, bydd ymatebion i'r adroddiadau yn cael eu cyflwyno i gyfarfodydd Herio a Chefnogi Perfformiad yr Adran berthnasol gyda'r bwriad o roi sicrwydd ychwanegol i'r Pwyllgor bod trefniadau priodol mewn lle.

Ategodd Archwilio Cymru bod y trefniadau wedi eu haddasu gyda'r ffurflenni ymateb, amserlen a dyddiad cau yn cael eu rhannu gyda'r swyddog cyfrifol fydd yn ymateb i argymhellion yr archwiliad. Ategwyd eu bod yn croesawu'r trefniant o herio'r cynnydd mewn cyfarfodydd herio perfformiad.

Diolchwyd am yr adroddiad

Mewn ymateb i gwestiwn os oedd y trefniadau newydd yn dilyn patrwm Cynghorau eraill, nodwyd, yn gyffredinol, bod ymatebion yn cael eu trafod tua dwywaith y flwyddyn gydag argymhellion archwiliadau yn cael eu trafod ochr yn ochr â'r ymateb. Ategwyd bod hyn yn golygu bod y rhaglen yn rhwydd i'w dilyn gyda dyddiad ymateb a dyddiad cwblhau wedi eu gosod - cerrig milltir sy'n allweddol i'r broses. Croesawyd bod cyfleoedd yn cael eu cymryd i finiogi'r trefniadau presennol.

**PENDERFYNWYD:**

- **Derbyn a nodi bod trefniadau a phrosesau ar waith er mwyn sicrhau bod y cynigion gwella yn cael eu gweithredu**
- **Croesawu trefniadau newydd i adrodd ar gynnydd adroddiadau archwilio allanol pob 6 mis i'r Pwyllgor**

- **Croesawu penderfyniad bod ymatebion i'r adroddiadau yn cael eu cyflwyno i gyfarfodydd Herio a Chefnogi Perfformiad yr Adran berthnasol**

## 12. RHEOLAU GWEITHDREFN CONTRACT

Cyflwynwyd yr adroddiad gan y Swyddog Monitro i ddiweddaru'r Pwyllgor ar newidiadau i Reolau Gweithdrefn Contractau sydd yn digwydd yn sgil y Ddeddf Caffael 2023. Eglurwyd, ers i'r Deyrnas Unedig adael yr Undeb Ewropeaidd, mae'r Llywodraeth (DU) wedi adnabod hyn fel cyfle i adolygu deddfwriaeth sy'n gysylltiedig â chaffael yn y sector gyhoeddus. Pasiwyd Deddf Caffael 2023 gyda bwriad i'r Ddeddf ddod i rym Hydref 2024 ond bellach yn dod i rym Chwefror 2025. Ategwyd bod Llywodraeth Cymru wedi pasio Deddf Partneriaeth Gymdeithasol a Chaffael Cyhoeddus (Cymru) 2023 sy'n rhoi mwy o gyfrifoldebau a dyletswyddau ar sefydliadau sector gyhoeddus yng Nghymru sydd hefyd gysylltiedig â chaffael.

Nodwyd mai prif amcan y gwaith yw newid Cyfansoddiad y Cyngor a threfniadau canolog i gyfarch newidiadau'r Ddeddf. Adroddwyd bod cydweithredu rhanbarthol wedi digwydd i gyfarch y newidiadau a bod Adran Caffael y Cyngor wedi bod yn paratoi ar gyfer y newid - byddai peidio adolygu a diwygio'r Rheolau yn codi risg sylweddol i'r Cyngor; buasai'r Cyngor yn agored i her gyfreithiol am fethu â chydymffurfio â'r ddeddfwriaeth, a hefyd yn debygol o gael beirniadaeth gan archwilwyr a rheoleiddwyr. Amlygwyd bod y gwaith yn gyfle i sicrhau bod y Rheolau Gweithdrefn Contract yn ddigon hyblyg i ganiatáu i swyddogion gynnal ymarfer caffael yn y ffordd fwyaf effeithlon ac effeithiol. Yn ogystal, bydd y ddeddfwriaeth newydd yn sicrhau bod rheolaeth i unrhyw ymarfer caffael ac yn sicrhau gwerth am arian i'r Cyngor. Gwaith pellach fydd newid cyfansoddiad y Cyngor a threfniadau canolog i gyfarch y Ddeddf

Diolchwyd am yr adroddiad

**PENDERFYNWYD**

- **Derbyn y Rheolau Gweithdrefn ar y newidiadau i Reolau Gweithdrefn Contractau sydd yn digwydd yn sgil Deddf Caffael 2023**

## 13. BLAEN RAGLEN Y PWYLLGOR

Cyflwynwyd blaen raglen o eitemau ar gyfer cyfarfodydd y Pwyllgor hyd Chwefror 2026

**PENDERFYNWYD:**

**Derbyn y Rhaglen waith ar gyfer Mai 2025 – Chwefror 2026**

Dechreuodd y cyfarfod am 10.00 a daeth i ben am 13:10

______________________________

**CADEIRYDD**